

GALWAD

FFASIWN Y DYFODOL

ARCHWILIO EFFAITH FFASIWN YN Y
BYD HEDDIW A DOD YN
DDYLUNWYR DILLAD CYNALIADWY
YN Y DYFODOL



Eco-Schools



Gwybodaeth gefndir

Mae'r niwed a achosir i'r amgylcheddol gan y diwydiant ffasiwn a thecstilau wedi'i gofnodi'n dda dros y blynyddoedd diwethaf. Wedi'i restru fel 2^{il} lygrwr mwyaf y Byd, y tu ôl i'r diwydiant olew, ac yn cyfrannu tua 10% o'r allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Bydeang, mae gan ein dewisiadau dillad lawer i'w hegluro yn 2022.

Yn ffodus, mae cynhyrchwyr a dylunwyr wedi bod yn meddwl am ffyrdd arloesol o leihau effaith amgylcheddol ein dillad ac mae cymdeithas bellach yn dod yn fwy cyfarwydd ag ailddefnyddio cyn prynu dillad newydd. Mae yna dipyn o ffordd i fynd eto ond beth fydd ôl troed ein dillad yn 2052?

I ddarganfod ychydig mwy am effaith ffasiwn a thecstilau a rhai o'r dewisiadau eraill, edrychwch ar y [Fibre Eco-review \(sustainyourstyle.org\)](https://sustainyourstyle.org) a'r [canllaw hwn i'r hyn sy'n bod ar y Diwydiant Ffasiwn \(sustainyourstyle.org\)](https://sustainyourstyle.org)



Mae 400% yn fwy o ddillad yn cael eu cynhyrchu nawr o gymharu ag 20 mlynedd yn ôl



Mae 30% o Batagonia yn cael ei effeithio gan Ddiffeithdiro oherwydd defaid yn pori (ar gyfer gwlân)



Mae'n bosibl gwneud dillad o groen oren gwastraff ac o ddail pîn-afal

Gweithgaredd

1. Yn 2022 mae'r diwydiant dillad wedi cael effaith sylweddol ar ein planed a'n hamgylchedd ac anaml y bu hyn yn effaith gadarnhaol.

Edrychwch ar y ffeithiau ar daflen waith 1 i weld a allwch chi eu paru â'r ddelwedd gywir.

2. Gallem fod ar drothwy chwyldro ffasiwn! Bu llawer o gynnydd o ran ffibrau mwy cynaliadwy i wneud ein dillad ohonynt.

Mae'r cardiau ar daflen waith 2 yn cynnwys peth gwybodaeth am y gwahanol ddefnyddiau sydd ar gael neu sy'n cael eu datblygu. Edrychwch a allwch chi eu rhestru mewn trefn diemwnt o ran pa un fyddai fwyaf cynaliadwy ac addas ar gyfer creu eich dillad yn y dyfodol.

Gallwch ddarganfod mwy am y rhain a defnyddiau eraill yn y [canllaw ar y defnyddiau mwyaf cynaliadwy a moesegol \(sustainyourstyle.org\)](https://sustainyourstyle.org)

3. Nawr mae'n amser bod yn greadigol! Beth fyddwch chi'n ei wisgo yn 2052?

Dyluniwch eich gwisg ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys cymaint o fanylion â phosibl. Gallech wneud rhywfaint o ymchwil pellach i'r mathau o ddefnyddiau sydd ar gael neu sy'n cael eu datblygu. Meddyliwch am:

- O beth fydd yn cael ei wneud a sut bydd yn cael ei liwio?
- Pa mor ymarferol fydd eich gwisg?
- A fydd yn para am amser hir ac yn hawdd ei atgyweirio os oes angen?
- A fydd yn cael ei gynllunio ar gyfer rhyw benodol neu a fydd yn fwy niwtral o ran rhyw?
- A fydd ar gyfer achlysur arbennig neu'n aml-swyddogaeth?
- Beth fydd yn digwydd iddo ar ddiwedd ei oes?



A fydd ffasiwn yn cael ei ddylanwadu gan ailgylchu a byd natur?



A fydd ffasiwn yn ddefnyddiau synthetig gyda thechnoleg wedi'i mewnosod?



A fydd yn ymarferol ac yn helpu pobl i ymdopi â'r tywydd cyfnewidiol?

4. Rhannwch eich dyluniadau gyda chyfoedion a thrafodwch pa eitemau o ddillad y byddech chi'n dewis eu gwisgo a pham.

Myfyrio

Gallai symud o 'ffasiwn cyflym' i 'ffasiwn araf a chynaliadwy' fod yn ateb mawr i rai o'r heriau sy'n wynebu ein planed heddiw. Yn ogystal ag edrych ar ddewisiadau presennol neu yn y dyfodol ar gyfer dylunio dillad, beth arall allwn ni ei wneud i newid y ffordd yr ydym yn dewis, defnyddio a phrynu dillad nawr fel y gallwn anelu at y dyfodol yr hoffem ei weld?

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Dibenion

- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd.
- Cyfranwyr mentrus, creadigol

MDPh a datganiadau Beth sy'n Bwysig

Y Dyniaethau

- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesol.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredu dynol.

Dolenni Nodau Byd-eang



Nod 14: Bywyd islaw'r Dŵr

Nod 12: Defnydd a Chynhyrchu Cyfrifol


Nod 13: Gweithredu Hinsawdd

Taflen waith 1

Ar hyn o bryd mae'r diwydiant tecstilau yn cael rhai effeithiau eithaf mawr ar ein planed. Edrychwch a allwch chi baru'r wybodaeth â'r ffaith a'r llun perthnasol i ddarganfod mwy. Gwybodaeth wedi'i chymryd o [How Fast Fashion Hurts the Planet Through Pollution and Waste \(businessinsider.com\)](https://www.businessinsider.com/how-fast-fashion-hurts-the-planet-through-pollution-and-waste)

Mewn llawer o wledydd sy'n cynhyrchu dillad, mae gwastraff gwenwynig o wneud a lliwio'r defnydd yn cael ei ollwng yn syth i'r afonydd. Mae hyn yn arwain at afonydd sy'n anaddas i fywyd gwylt ac yn beryglus i bobl.

Mae cotwm yn defnyddio 1/6 o bryfleiddiad y Byd (a ddefnyddir i ladd pryfed a allai niweidio'r cnwd), yn fwy nag unrhyw gnwd mawr arall.



Mae cotwm yn gnwd sychedig iawn. Yn rhanbarth Môr Aral yn Asia, mae dargyfeirio afonydd i blanhigfeydd cotwm dŵr wedi arwain at y môr yn mynd o fod yn fwy na Chymru i tua 1/10 o'i faint gwreiddiol.

Mae golchi dillad yn rhyddhau microblastigau a fyddai'n cyfateb i 50 biliwn o boteli plastig i'n cefnforoedd BOB BLWYDDYN



Mae llawer o'n dillad wedi'u gwneud o fath o blastig sy'n dod o olew. Mae hyn yn cynnwys polyester ac elasthan. Yn anffodus mae hyn yn achosi cyhyrchu llawer o nwyon tŷ gwydr a hefyd yn rhyddhau llawer o ficroblastigau i'r afonydd a'r cefnforoedd pan fyddwn yn eu golchi.

Mae dillad a thecstilau yn achosi tua 10% (1/10) o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae hynny'n fwy na'r holl longau a hediadau rhyngwladol wedi'u hychwanegu at ei gilydd.



Mae tyfu cotwm (oni bai ei fod yn cael ei wneud yn organig) fel arfer yn defnyddio llawer o blaladdwyr, sy'n cael effaith ddinistriol ar fywyd gwylt lleol a hefyd ar iechyd ffermwyr cotwm.

Mae'n cymryd 2700 litr o ddŵr i gynhyrchu'r cotwm ar gyfer crys-t. Yr un faint y byddai person yn ei yfed mewn 3 blynedd!



Mae angen defnyddio llawer iawn o ynni i gynhyrchu tecstilau a dillad, gan gynnwys trwy droi olew yn bolyester, cynhyrchu cemegau i dyfu cotwm, gwneud lliwiau, rhedeg ffatrioedd, cludo nwyddau.

Daw 1/5 o lygredd dŵr diwydiannol o drin tecstilau a lliwiau.



Taflen waith 2

Cywarch:

- Cnwd sy'n tyfu'n gyflym iawn
- Yn defnyddio 50% yn llai o ddŵr na chotwm
- Yn dda i'r pridd ac nid oes angen plaladdwyr arno.
- Ni chaniateir ei dyfu ym mhob gwlad oherwydd ei fod yn yr un teulu â chanabis.
- Ffibr naturiol felly'n fiogdiraddadwy

Polyester:

- Yn defnyddio llawer o ynni i'w gynhyrchu
- Heb fod yn biogdiraddadwy
- Yn rhyddhau microblastigau wrth olchi
- Rhad i'w brynu
- Hawdd gofalu amdano ac yn para am amser hir

Ffibr pîn-afal:

- Mae ffibrau dail pîn-afal yn cael eu cyfuno â bio-blastig i greu defnydd
- Ffabrig tebyg i ledr
- Yn defnyddio cynnyrch gwastraff (dail pîn-afal) felly ôl troed amgylcheddol bach iawn
- Wedi'i orchuddio mewn resin petrolewm
- Heb fod yn biogdiraddadwy

Cotwm:

- Ffibr naturiol
- Yn defnyddio llawer o dir a dŵr
- Os nad yw'n organig, mae'n defnyddio llawer o blaladdwyr i'w dyfu
- Bydd yn biogdiraddio
- Yn aml yn defnyddio llafur plant neu lafur gorfodol i'w gynhyrchu

Nid yw cotwm organig yn defnyddio unrhyw gemegau, dulliau ffermio traddodiadol a llawer llai o ddŵr

Lledr:

- Wedi'i wneud o sgil-gynnyrch y diwydiant cig
- Yn defnyddio cemegyn gwenwynig i wneud y crwyn yn wisgadwy sy'n achosi problemau iechyd i weithwyr.
- Llygredd dŵr o gemegau.
- Gellir ei wneud yn fwy ecogyfeillgar heb gemegau gwenwynig ond nid oes llawer o leoedd yn gwneud hyn eto.

Gwlân:

- Ffibr naturiol adnewyddadwy
- Mae 1 biliwn o ddefaid yn cael eu magu ar gyfer gwlân ar draws y Byd
- Mae gorbordi defaid yn achosi erydiad a cholli pridd neu ddiffieithdiro.
- Mae defaid yn rhyddhau methan

Gellir ailgylchu gwlân yn hawdd ac mae cynhyrchion bellach yn cael eu gwerthu o wllân wedi'i ailgylchu.

Bambŵ:

- Yn tyfu'n gyflym iawn
- Nid oes angen plaladdwyr na gwrtaith i'w dyfu
- Yn defnyddio cemegau cryf iawn i droi'r bambŵ yn ffibr
- Mae llygredd dŵr yn gysylltiedig â'r cemegau a ddefnyddir
- Ffibr naturiol

Polyester wedi'i ailgylchu:

- Gellir ei wneud o boteli plastig wedi'u hailgylchu
- Defnyddir 70% yn llai o ynni i wneud polyester wedi'i ailgylchu na pholyester newydd.
- Rhad i'w gynhyrchu
- Nid yw'n biogdiraddio
- Yn rhyddhau microblastigau wrth olchi

Ffibr oren:

- Wedi'u gwneud o'r crwyn oren sy'n weddill o'r diwydiant sudd sitrws.
- Ffibr naturiol
- Biogdiraddadwy
- Drud ar hyn o bryd
- Heb fod ar gael yn eang

GALWAD



CREATIVITY IN THE UK



Cymru Greadigol
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD gan Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB

33-35 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9HB

029 2025 6767

keepwalestidy.cymru

info@keepwalestidy.cymru



Eco-Schools



Eco-Sgolion

